**Beirniadaeth Cystadleuaeth 335**

**Prosiect Gwyddonol Bl.7, 8 a 9**

**Beirniad: Angharad Wyn**

**1af – Winnie -** Dyma gyflwyniad am bwnc pwysig a chyfredol tu hwnt sy'n haeddu cael sylw. Roedd strwythur y cyflwyniad yn rhwydd i'w ddilyn ac roedd penawdau pwrpasol i'r gwaith. Roedd defnydd da o ddeunydd gweledol gan gynnwys lluniau a graffiau pwrpasol. Ar brydiau, teimlais bod y gwaith yn ail-adroddus ond efallai gellir dadlau bod ail-adrodd yn tanlinellu pwysigrwydd yr hyn sy'n cael ei ddweud. Dechrau da ar ddefnyddio llyfryddiaeth ar oedran mor ifanc- gobeithio y gwnei di ddatblygu y sgil yma ymhellach wrth ysgrifennu mwy o gyflwyniadau yn y dyfodol. Llongyfarchiadau.

**2il - Dau bengwyn call** a'u harbrawf ar Y Pengwiniaid sydd yn yr ail safle. Hoffais ddarllen am yr arbrawf yma yn fawr iawn. Roedd y cyflwyniad a'r rhag-fynegiad yn dda iawn. Hoffais y diagram yn esbonio sut oedd y tiwbiau wedi eu gosod. Roedd y canlyniadau wedi eu gosod mewn tabl clir ac roedd y drafoaeth o amgylch y casgliad yn dda iawn. Bydden i wedi hoffi mwy o eboniad am yr arth. Ymgais arbennig i gofnodi arbrawf ddiddorol iawn.

**3ydd - Cenin Pedr**

Ymgais dda iawn i gofnodi archwiliad am pH hylifau yn y cartref. Roedd y dull yn glir a'r canfyddiadau wedi eu esbonio yn glir. Roedd hi'n ddiddorol iawn darllen sut oedd posib defnyddio dangosydd naturiol. Dwi'n credu byddai ychwanegu penawdau er mwyn rhannu'r gwaith yn syniad da yn ogystal ag ystyried cynnwys graff neu lun.

**Meibion y Mynydd**- Gwahaniad. Roeddwn i'n hoffi gweld tystiolaeth o'r gwaith ysgrifenedig. Roeddwn i hefyd yn hoffi'r cyfeiriad at yr hidlydd cynaliadwy oedd yn defnyddio potel blastig. Byddai cynnwys mwy o drafodaeth o amgylch y canlyniadau yn syniad da.

**Ar Wib** - Roedd y syniad tu ôl i'r arbrawf yma yn un da iawn. Roeddwn i'n hoffi'r penawdau a'r dewis o ffont, Yn anffodus, doedd dim canlyniadau na tabl i gael- dwi'n credu bod rhan o'r gwaith ar goll yma.

**Doethion Gwy**- Sut mae plwg yn gweithio. Defnydd diddorol o luniau a doedd dim gormodedd o wybodaeth ar bob sleid. Mae'n amlwg eich bod wedi dysgu llawer am y plwg ond dydw i ddim yn credu ein bod yn gallu galw hwn yn arbrawf.

**Y Pum Perffaith**- Cwtsh Pengwyn. Defnydd hyfryd o luniau yma. Roeddwn i'n hoff iawn o'r dull. Byddai cynnwys canlyniadau a thrafodaeth yn syniad da ar gyfer y tro nesaf. Diolch am gystadlu.

**Cai -** Doedd dim gwaith wedi ei gyflwyno.